# Trafnidiaeth Cymru

# Dangosyddion Perfformiad Allweddol

*Chwarter 04 2024/25*

# Diogelwch

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Diogelwch Cydweithwyr

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 99.4% | 99.4% | 97.3% |

**Disgrifiad DPA**

Canran gyffredinol staff Rheilffyrdd TrC a oedd yn gweithio’n ddiogel a ddim yn agored i weithredoedd neu amodau anniogel, megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, galwadau agos neu ddamweiniau.

**Trosolwg**

Yn 2024/25, parhaodd ein mesur Diogelwch Cydweithwyr yn ffafriol ac roedd yn unol â 2023/24. Er mwyn cynnal y safon hon, fe wnaethom barhau i adolygu digwyddiadau er mwyn nodi tueddiadau a'u lliniaru yn unol â hynny.

**Edrych Ymlaen**

Mae diogelwch ein cydweithwyr o'r pwys mwyaf i ni ac rydym yn cynllunio ar ei gyfer ym mhob agwedd ar ein gwaith. Yn 2025/26, er mwyn atgyfnerthu ein perfformiad diogelwch cryf, rydym yn datblygu ein dull o ymdrin â risg diogelwch drwy nodi achosion sylfaenol a themâu cyffredin sy'n ymwneud â digwyddiadau sy'n cynnwys cydweithwyr.

## Digwyddiadau Diogelwch fesul 100k o Deithiau Teithwyr

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 1.3 | 1.3 | 1.0 |

**Disgrifiad DPA**

Nifer y digwyddiadau diogelwch yn ymwneud ag unrhyw gwsmer, teithiwr, neu aelod o’r cyhoedd fesul 100,000 o deithiau teithwy.

**Trosolwg**

Yn 2024/25, roedd nifer y Digwyddiadau Diogelwch fesul 100k o Deithiau Teithwyr yn unol â 2023/24. Digwyddodd y rhan fwyaf o ddigwyddiadau diogelwch a effeithiodd ar gwsmeriaid eleni mewn gorsafoedd neu wrth i deithwyr fynd ar drenau neu ddod oddi arnynt.

**Edrych Ymlaen**

Mae diogelwch a lles ein cwsmeriaid yn ganolog i'n blaenoriaethau. Yn 2025/26, byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i leihau damweiniau cwsmeriaid. Bydd ein Grŵp Llywio Lliniaru Damweiniau Cwsmeriaid yn parhau i fabwysiadu dull rhagweithiol o reoli risg diogelwch er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cwsmer

## Boddhad Cwsmer

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 82.0% | 84.4% | 86.3% |

**Disgrifiad DPA**

Rydym yn mesur boddhad cwsmeriaid trwy Wavelength, sef offeryn monitro a mesur gwasanaeth cwsmeriaid y diwydiant rheilffyrdd. Mae'n mesur pa mor fodlon yw ein cwsmeriaid â'u taith gyffredinol.

**Trosolwg**

Gwellodd boddhad cwsmeriaid rheilffyrdd gan 2.4 pwynt canran i 84.4%. Eleni, fe wnaethom ddadansoddi adborth cwsmeriaid yn fanwl i wella ein gwasanaethau a'n seilwaith.

**Edrych Ymlaen**

Yn ystod chwarter 4 2024/25, fe wnaethom lansio arolwg boddhad cwsmeriaid newydd a fydd yn cynyddu maint ein sampl adborth. Yn 2025/26, byddwn yn defnyddio hwn i ddeall safbwyntiau ein cwsmeriaid yn well fel y gallwn flaenoriaethu a gweithredu gwelliannau wedi'u targedu ar draws ein rhwydwaith.

## Cwynion fesul 100k o Deithiau Rheilffordd

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 137 | 106 | 96 |

**Disgrifiad DPA**

Unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd gan gwsmer neu gwsmer posibl ynghylch Rheilffyrdd TrC fel cyfran o 100,000 o siwrneiau teithwyr rheilffordd.

**Trosolwg**

Yn 2024/25 mae cwynion am deithio ar y trên wedi gostwng o'u cymharu â 2023/24. Gostyngodd cwynion am oediadau a chanslo ar y rhwydwaith gan ein bod wedi cwblhau’r gwaith o drydaneiddio llinellau Treherbert, Aberdâr a Merthyr, yn ogystal â chynnig mynediad haws i'n trenau a gwella dibynadwyedd ein gwasanaethau.

**Edrych Ymlaen**

Yn 2025/26 rydym yn ymchwilio i ddulliau gwahanol o wella'r broses adborth, gan ei gwneud hi'n haws i gwsmeriaid gysylltu â ni.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cwsmer

## Teithiau Teithwyr Rheilffyrdd

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 26.6M | 31.7M | 9.7M |

**Disgrifiad DPA**

Cyfanswm nifer y teithwyr trên a brynodd docynnau ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Mae hyn yn cynnwys Llinellau Craidd y Cymoedd a Chymru a'r Gororau.

### Trosolwg

Yn 2024/25 cynyddodd nifer y Teithiau Trên i Deithwyr yn sylweddol o'i gymharu â 2023/24. Ysgogwyd y cynnydd hwn o 19.4% yn bennaf gan y cynnydd mewn teithiau pellter byrrach ar draws rhwydwaith TrC, gyda thwf cryf yn ardal Metro De-ddwyrain Cymru a Gogledd-ddwyrain rhwydwaith TrC. Mae'n debygol bod y gwaith o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd a chyflwyno trenau newydd ar draws y rhwydwaith wedi cyfrannu at y twf cryf hwn o flwyddyn i flwyddyn.

### Edrych Ymlaen

Yn 2025/26, byddwn yn denu defnyddwyr newydd i'r rhwydwaith wrth i ni wella'r gwasanaethau a gynigiwn. Byddwn hefyd yn cymryd camau i annog cwsmeriaid i deithio'n amlach drwy symleiddio prisiau tocynnau a gwella gwerth am arian.

## Llinellau Craidd y Cymoedd (hyd at 3 munud)

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 86.5% | 85.7% | 88.3% |

**Disgrifiad DPA**

Canran y gwasanaethau rheilffordd sy'n cyrraedd o fewn 3 munud i'r amser cyrraedd a drefnwyd ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd. Cyfeirir at hyn yn fewnol fel Amser Teithwyr a Gollwyd. Rhoddir pwysiad ar orsafoedd rheilffordd sydd â'r nifer uchaf o gwsmeriaid felly mae oedi mewn lleoliadau mwy o ymwelwyr yn cael mwy o effaith ar y mesur. Er enghraifft, mae oedi yn Heol y Frenhines Caerdydd yn cael mwy o effaith ar y ganran o gymharu â Threherbert.

### Trosolwg

Yn 2024/25, gostyngodd y nifer o drenau ar Linellau Craidd y Cymoedd a gyrhaeddodd yn brydlon o fewn 3 munud ychydig o'i gymharu â 2023/24. Yn gyd-destun i hyn roedd newid mawr yn yr amserlen ym mis Mehefin a gynyddodd nifer y galwadau mewn gorsafoedd gan 45%, gan wella dewis cwsmeriaid ac amlder trenau ar draws y rhwydwaith. Ar ôl cyfnod cychwynnol o addasu, mae'r amserlen newydd, trenau newydd a gwelliannau seilwaith wedi arwain at flwyddyn lwyddiannus o ran prydlondeb ac mae gan Linellau Craidd y Cymoedd wasanaethau trên wedi'u trydaneiddio bellach am y tro cyntaf yn eu hanes.

### Edrych Ymlaen

Yn 2025/26, byddwn yn cyflwyno mwy o drenau hybrid tri-modd i Linellau Craidd y Cymoedd ac yn gwneud gwelliannau pellach i'n seilwaith. Mae meysydd ffocws i wella prydlondeb yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid i liniaru effaith tresmasu, tywydd eithafol ac amrywiaethau tymhorol ar ddarpariaeth gwasanaethau trên.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cwsmer

## Cymru a'r Gororau Ar Amser (hyd at 3 munud)

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 69.7% | 75.0% | 79.1% |

**Disgrifiad DPA**
Canran y gwasanaethau rheilffordd sy'n cyrraedd o fewn 3 munud i'r amser cyrraedd a drefnwyd ar draws Cymru a'r Gororau, cyfeirir at hyn yn fewnol fel Colli Amser Teithiwr. Rhoddir pwysiad ar orsafoedd rheilffordd sydd â'r nifer uchaf o gwsmeriaid felly mae oedi mewn lleoliadau mwy o ymwelwyr yn cael mwy o effaith ar y mesur. Er enghraifft, mae oedi yng Nghaerdydd Canolog yn cael effaith uwch na'r ganran o gymharu â Phont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd.

**Trosolwg**
Yn 2024/25, cynyddodd Prydlondeb Cymru a'r Gororau (o fewn 3 munud) o'i gymharu â 2023/24. Roedd y llwyddiant hwn o ganlyniad i newid mawr yn yr amserlen ym mis Rhagfyr a gynyddodd nifer y galwadau mewn gorsafoedd gan 19% ynghyd â'r ffaith ein bod wedi parhau i gyflwyno trenau newyd, gallu'r trenau newydd i redeg fel trenau hirach gyda mwy o gerbydau yn ogystal â'r defnydd o'n gwasanaethau trên locomotif Dosbarth Cyntaf sy'n rhedeg gyda 5 cerbyd. Nid yn unig y gwnaeth hyn wella prydlondeb ond fe wnaeth hyn hefyd wella capasiti a chynnig profiad mwy cyfforddus i gwsmeriaid. Dyfarnwyd gwobr Chwiban Arian i ni hefyd gan Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Rheilffyrdd am y perfformiad prydlondeb rhanbarthol a wellodd fwyaf, ond gwyddom fod gwaith i'w wneud o hyd i ysgogi gwelliannau pellach.

**Edrych Ymlaen**
Yn 2025/26, byddwn yn derbyn mwy o drenau Dosbarth 197 a fydd yn lleihau amseroedd teithio ymhellach ac yn gwella prydlondeb ar rwydwaith Cymru a'r Gororau. Byddwn yn gweithio gyda'n cyflenwyr i wella argaeledd a dibynadwyedd trenau ac yn gweithio gyda Network Rail i wella dibynadwyedd yr amserlen a lliniaru effaith tresmasu, tywydd eithafol ac amrywiaethau tymhorol ar y rheilffordd.

## Canslo ar y diwrnod

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 5.0% | 5.3% | 4.5% |

**Disgrifiad DPA**
Canran y gwasanaethau rheilffordd a ganslwyd ar y diwrnod ar draws y rhwydwaith fel cyfran o gyfanswm nifer y gwasanaethau a nodir yn y cynllun trên dyddiol.

**Trosolwg**
Yn 2024/25, cynyddodd cyfraddau Canslo ar y Diwrnod o'u cymharu â 2025/26. Roedd hyn oherwydd i ni gyflwyno amserlen newydd ar Linellau Craidd y Cymoedd a achosodd gynnydd, ar y dechrau, mewn cyfraddau canslo rhannol a stopiau'n cael eu hepgor er mwyn diogelu prydlondeb gwasanaethau. Rydym yn falch o gyhoeddi y daeth y flwyddyn i ben yn dda gan fod cyflwyno trenau newydd ar sawl llwybr helpu i leihau canslo.

**Edrych Ymlaen**
Yn 2025/26, bydd cyfraddau Canslo Trenau Ar y Diwrnod oherwydd prinder trenau yn lleihau wrth i fwy o drenau newydd gael eu cyflwyno i'r rhwydwaith. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar strategaethau a fydd yn lleihau'r tarfu ar deithwyr os bydd tywydd eithafol, problemau cynnal a chadw fflyd a phroblemau seilwaith.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cwsmer

## Cansladau- Cyn

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 0.9% | 0.1% | 0.0% |

**Disgrifiad DPA**

Canran y gwasanaethau rheilffordd a ganslwyd cyn 10yh y diwrnod cyn gweithredu fel cyfran o gyfanswm nifer y gwasanaethau a nodir yn y cynllun trên dyddiol.

**Trosolwg**

Yn 2024/25, gostyngodd cyfraddau Canslo Cyn y Diwrnod yn sylweddol o'u cymharu â 2023/24. Roedd hyn yn adlewyrchu ein cynllunio adnoddau gofalus, wrth i ni sicrhau bod digon o yrwyr trên, goruchwylwyr a chydweithwyr eraill sy'n hanfodol i ddiogelwch er mwyn gallu gweithredu'r amserlen. I'n gyrwyr trên, mae dydd Sul bellach yn rhan o'u hwythnos waith, sydd wedi arwain at wasanaeth gwell ar ddydd Sul.

**Edrych Ymlaen**

Yn 2025/26, rydym yn gweithio i gadw nifer y gyrwyr, y goruchwylwyr trên a chydweithwyr eraill sy'n hanfodol i ddiogelwch fel y gellir cyflawni gwelliannau i'r amserlen yn y dyfodol a chynnal hyfforddiant i gydweithwyr ar ein trenau newydd. Caiff y risg o brinder goruchwylwyr trên ar ddydd Sul yn cael ei lleihau eleni pan fydd dyddiau Sul yn cael eu cynnwys yn yr wythnos waith.

## Cwynion TrawsCymru fesul 100k o Deithiau

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 24 | 20 | 19 |

**Disgrifiad DPA**

Unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd gan gwsmer neu ddarpar gwsmer am deithiau TrawsCymru T1, T1C, T2, T3, T6, T10 fel cyfran o 100,000 o deithiau teithwyr TrawsCymru.

**Trosolwg**

Yn 2025/26, hanerodd Cwynion TrawsCymru fesul 100k o Deithiau o'u cymharu â 2023/24. Un o'r prif ffactorau a arweiniodd at y gostyngiad hwn oedd gwell cyfathrebu ynghylch newidiadau i wasanaethau a oedd yn effeithio ar gwsmeriaid. Fe wnaethom hefyd gynyddu ein digwyddiadau ymgysylltu â chwsmeriaid gan gynnwys Te gyda Traws, sef fforwm i gwsmeriaid allu siarad â ni'n agored am ein gwasanaethau.

**Edrych Ymlaen**

Yn 2025/26, byddwn yn cynnal mwy o ddigwyddiadau ymgysylltu â chwsmeriaid i gasglu adborth ar ein gwasanaeth a blaenoriaethu meysydd i'w gwella. Bydd ein hyfforddiant gyrwyr llwyddiannus, sy'n canolbwyntio ar foddhad cwsmeriaid, yn orfodol i bob gyrrwr TrawsCymru a bydd ail fodiwl yn cael ei gyflwyno wrth i ni barhau i ganolbwyntio ar wella cysondeb ac ansawdd profiad y cwsmer ar draws rhwydwaith y bysiau.

# Cwsmer

## Teithiau Teithwyr TrawsCymru

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 1.1M | 1.2M | 0.3M |

**Disgrifiad DPA**

Cyfanswm nifer y teithwyr a gludwyd ar lwybrau TrawsCymru T1, T1C, T2, T3, T6, T10.

**Trosolwg**

Yn 2024/25, cynyddodd nifer y Teithiau TrawsCymru i Deithwyr o'i gymharu â 2023/24. Parhaodd ein safonau gweithredu cyson, strwythurau prisiau a thocynnau trên a bws integredig i ddenu cwsmeriaid newydd gyda nifer y teithwyr yn cynyddu ar lwybrau'r T10 (Bangor i Gorwen) a'r T2 (Bangor i Aberystwyth). Cyflwynwyd system Tap Ymlaen a Thap Ymadael ar draws y rhwydwaith a wnaeth teithiau'n symlach i gwsmeriaid yn ogystal â darparu gwerth am arian. Cyflwynwyd naw bws newydd i lwybrau'r T2 (Bangor i Aberystwyth) a'r T3 (Y Bermo i Wrecsam) a wellodd y ddarpariaeth gwasanaeth i gwsmeriaid.

**Edrych Ymlaen**

Yn 2025/26, byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyson ac uchel ei safon i gwsmeriaid TrawsCymru ar draws y rhwydwaith. Byddwn yn safoni ein strwythur prisiau wrth i fwy o lwybrau TrawsCymru ymuno â TrC a byddwn yn darparu g wasanaeth o safon uchel gan y bydd ein holl yrwyr yn derbyn hyfforddiant boddhad cwsmeriaid.

## Cansladau TrawsCymru

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 0.6% | 1.1% | 0.3% |

**Disgrifiad DPA**

Canran y siwrneiau TrawsCymru T1, T1C, T2, T3, T6, T10 a gafodd eu canslo ar y diwrnod.

**Trosolwg**

Yn 2024/25, cynyddodd cyfraddau canslo TrawsCymru o'u cymharu â 2023/24. Canslwyd y gwasanaethau hyn er budd diogelwch cydweithwyr a'r cyhoedd yn ystod Stormydd Bert a Darragh. Storm Darragh gafodd yr effaith fwyaf o ran canslo gwasanaethau gan iddi achosi i holl wasanaethau TrawsCymru TrC gael eu canslo am ddiwrnod cyfan. Eleni, fe wnaethom barhau i wella cyfathrebu â'n cwsmeriaid os bydd tarfu gan ddefnyddio gwefan TrawsCymru, ap TrawsCymru a chyfryngau cymdeithasol.

**Edrych Ymlaen**

Yn 2025/26, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar fonitro tueddiadau ac achosion sylfaenol canslo i'n helpu i leihau'r tarfu ar gwsmeriaid drwy leihau amser adfer gwasanaethau os bydd canslo. Rydym yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant blaenorol amserlenni dros dro ar gyfer gwaith ffordd sydd wedi'i gynllunio. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu ag awdurdodau lleol ac asiantaethau priffyrdd sydd, yn y gorffennol, wedi rhoi mwy o gysondeb i'r cwsmer pan fydd gwaith ffordd yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau. Byddwn hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar wella cyfathrebu â'n cwsmeriaid os bydd tarfu.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cwsmer

## Cwynion i Gomisiynydd y Gymraeg fesul 100k o Deithiau

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
| --- | --- | --- |
| 0.06 | 0.02 | 0.01 |

**Disgrifiad DPA**

Cwynion newydd fesul 100,000 o deithiau teithwyr (TrawsCymru a Rail) i Gomisiynydd y Gymraeg pan nad yw’r achwynydd wedi derbyn gwasanaeth Cymraeg gan TrC neu os oedd yn anfodlon â phenderfyniad Trafnidiaeth Cymru ar fater yn ymwneud â’r Gymraeg.

### Trosolwg

Yn 2024/25, gostyngodd Cwynion i Gomisiynydd y Gymraeg fesul 100k o Deithiau yn sylweddol o'u cymharu â 2023/24. Eleni roedd y cwynion hyn yn ymwneud â chyhoeddiadau ar ein trenau ac yn ein gorsafoedd, a chynnwys e-farchnata.

### Edrych Ymlaen

Yn 2025/26, byddwn yn parhau i fonitro ein darpariaeth iaith Gymraeg i gwsmeriaid a staff. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu ynghylch gwelliannau seilwaith a'n gwaith gyda phartneriaid allanol i sicrhau bod safonau'r iaith Gymraeg yn cael eu dilyn yn drylwyr a bod cyfleoedd diwylliannol Cymreig yn cael eu rhannu. Mae ein Strategaeth Iaith Gymraeg ar gael ar ein gwefan ac mae'n cyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae cyfraniad TrC at gydymffurfiaeth flynyddol Llywodraeth Cymru yn cael ei fonitro yn adroddiad Safon yr Iaith Gymraeg.

# Pobl

## Ymgeiswyr Sy'n Ferched

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 27.2% | 27.7% | 26.7% |

**Disgrifiad DPA**

Canran y bobl sy'n gwneud cais am rolau TrC sy'n fenywod. Yn hanesyddol, mae'r diwydiant trafnidiaeth wedi cyflogi llai o fenywod na dynion. Rydym am newid hynny. Rydym yn adeiladu tîm amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu

**Trosolwg**

Cynyddodd nifer y menywod a wnaeth gais am rolau yn TrC ychydig yn 2024/25 o'i gymharu â 2023/24. Eleni, er mwyn annog menywod i wneud cais am rolau yn TrC, fe wnaethom gynnal ymgyrchoedd hysbysebu strategol a anelwyd yn benodol at fenywod a oedd yn cynnwys posteri, cynnwys ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol, cydweithrediadau â Gyrfa Cymru a fideos 'Diwrnod ym Mywyd'. Yn ystod Chwarter 4, fe wnaethom weithio i herio stereoteipiau rhywedd trwy'r Bartneriaeth a werthfawrogir gan ysgolion, lle gwnaethom hyrwyddo rolau yn ein swyddogaethau Peirianneg a Gyrru i ferched mewn STEM.

**Edrych Ymlaen**

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar fod yn un o brif gyflogwyr cynhwysol Cymru drwy hyrwyddo cyfleoedd i fenywod o bob cefndir, yn enwedig mewn Peirianneg a Gyrru Trenau. Yn 2025/26, rydym yn bwriadu cynnal digwyddiadau rhithwir gweithredu cadarnhaol, a fydd yn fforwm lle bydd menywod o bob cefndir yn gallu rhyngweithio â'n Gyrwyr a'n Peirianwyr benywaidd a gofyn cwestiynau am y rolau. Bydd cyfle hefyd i gyfranogwyr gofrestru ar ein gwefan ar gyfer hysbysiadau swyddi. Rydym yn gweithio gyda'n rhaglen Talent Gynnar i sicrhau bod dyluniad pob ymgyrch dalent yn gynhwysol ac yn gwella ymgysylltiad gan fenywod. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan adolygiad parhaus o'n data recriwtio, i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau yn y broses recriwtio.

## Ymgeiswyr sy'n Ferched Sy'n Ennill Rolau Gyda TrC

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
|---|---|---|
| 33.2% | 31.8% | 31.0% |

**Disgrifiad DPA**

Canran yr ymgeiswyr benywaidd sy'n llwyddo i gael rôl TrC. Rydym yn gweithio i adeiladu tîm amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

**Trosolwg**

Gostyngodd nifer y menywod a dderbyniodd rolau gyda TrC ychydig yn 2024/25 o'i gymharu â 2023/24. Fodd bynnag, eleni fe groesawon ni ein carfan gyntaf o brentisiaid ac interniaid benywaidd i gyd, a oedd yn garreg filltir i'n Rhaglen Talent Gynnar ac yn adlewyrchu'r gwaith bwriadol sydd wedi digwydd er mwyn annog menywod i wneud ceisiadau. Roedd tair o'n prentisiaid benywaidd wedi cyrraedd rownd derfynol categori Prentis y Flwyddyn yng Ngwobrau Gweithwyr Proffesiynol Ifanc y Rheilffyrdd a Gwobrau Menywod yn y Rheilffyrdd. Yn chwarter olaf y flwyddyn, sicrhaodd nifer o raddedigion a phrentisiaid benywaidd rolau parhaol yn eu timau priodol.

**Edrych Ymlaen**

Rydym yn benderfynol o fod yn un o brif gyflogwyr cynhwysol Cymru drwy gynrychioli'r cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu o fewn ein gweithle. Yn 2025/26, byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid cymunedol i hysbysebu ar eu byrddau swyddi ac i ymestyn cyrhaeddiad ein hymgyrchoedd hysbysebu. Yn 2025/26, rydym hefyd yn lansio ein Rhaglen Ddychwelwyr, sef llwybr â chymorth yn ôl i'r gwaith i'r rhai sydd wedi cael seibiant gyrfa oherwydd rhesymau gofal plant, cyfrifoldebau gofalu neu salwch.

# Pobl

## Cadw Cydweithwyr

| 2023/24 | 2023/24 | Ch4 2024/25 |
| --- | --- | --- |
| 92.9% | 94.7% | 99.1% |

**Disgrifiad DPA**

Canran y cydweithwyr TrC a arhosodd gyda TrC yn ystod y flwyddyn. Rydym yn monitro hyn ar y cyd â pham mae cydweithwyr TrC yn gadael y sefydliad fel y gallwn ddyfeisio mentrau i gynyddu cadw gweithwyr. Bydd hyn yn ysgogi perfformiad gwell, yn gwella ein canlyniadau busnes ac yn lleihau'r risg o berfformiad busnes negyddol.

**Trosolwg**

Yn 2024/25, cynyddodd cyfraddau Cadw Cydweithwyr o'u cymharu â 2023/24. Eleni, mwynhaodd cydweithwyr raglenni arweinyddiaeth mewnol a chyfleoedd secondiad gyda Llywodraeth Cymru a Network Rail. Y prif reswm pam fod cydweithwyr wedi gadael Trafnidiaeth Cymru eleni oedd ymddeoliad.

**Edrych Ymlaen**

Yn 2025/26, bydd cyfleoedd datblygu gyrfa i'n cydweithwyr yn parhau i ddigwydd trwy hyfforddiant mewnol ac allanol a thrwy bartneriaethau ag achrediadau proffesiynol cydnabyddedig.

# Cyllid

## Gwariant Gweithredu

| Gwariant BA 2023/24 | Rhagolwg BA 2024/25 | Cyllideb 2024/25 |
|---|---|---|
| £354.6M | £376.6M | £379.6M |

**Disgrifiad DPA**

Y rhagolwg blwyddyn lawn diweddaraf ar gyfer gwariant gweithredol yn erbyn gwariant gweithredol blwyddyn gyfan a gyllidebwyd.

**Trosolwg**

Mae alldro'r flwyddyn lawn wedi'i alinio â Chyllideb TrC o fewn y Cynllun Busnes a'r llythyr cyllido diwygiedig a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Edrych Ymlaen**

Rydym yn parhau i adolygu gwariant ar draws Trafnidiaeth Cymru er mwyn nodi risgiau a chyfleoedd. Rydym yn ymgorffori heriau rheoli ac arbedion effeithlonrwydd yn y broses o osod cyllideb.

## Gwariant Cyfalaf

| Gwariant BA 2023/24 | Rhagolwg BA 2024/25 | Cyllideb 2024/25 |
|---|---|---|
| £446.4M | £358.0M | £331.9M |

**Disgrifiad DPA**

Y rhagolwg blwyddyn lawn diweddaraf ar gyfer gwariant cyfalaf yn erbyn gwariant cyfalaf blwyddyn gyfan a gyllidebwyd

**Trosolwg**

Mae alldro'r flwyddyn gyfan wedi'i alinio â Chyllideb Trafnidiaeth Cymru o fewn y Cynllun Busnes ynghyd ag addasiadau cyllido dilynol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru, a'r cyfan wedi'i adlewyrchu yn y llythyr cyllido terfynol. Gwelwyd y rhan fwyaf o'r gwariant ar Linellau Craidd y Cymoedd ac ar drenau newydd er mwyn trawsnewid y gwasanaethau.

**Edrych Ymlaen**

Rydym yn parhau i adolygu gwariant ar draws Trafnidiaeth Cymru er mwyn nodi risgiau a chyfleoedd. Rydym yn ymgorffori heriau rheoli ac arbedion effeithlonrwydd yn y broses o osod cyllideb.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cyllid

## Refeniw o Werthu Tocynnau

| 2023/24 | 2024/25 | Ch4 2024/25 |
| --- | --- | --- |
| £148.4M | £174.8M | £51.9M |

**Disgrifiad DPA**

Y refeniw a enillir o werthu tocynnau trên; cyfeirir at hyn yn gyffredin fel Refeniw Teithwyr (er bod Incwm Farebox yn cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol ar draws y diwydiant).

**Trosolwg**

Yn 2024/25, cynyddodd y Refeniw o Werthiant Tocynnau yn sylweddol o'i gymharu â 2023/24, gan dyfu ar gyfradd o 17.8%. Un o'r prif ffactorau a sbardunodd y cynnydd hwn oedd y twf mewn teithiau i deithwyr, yn enwedig teithiau pellter byrrach, gyda thwf cryf iawn yn ardal Metro De-ddwyrain Cymru a Gogledd-ddwyrain rhwydwaith Trafnidiaeth Cymru. Helpodd yr ehangu graddol o'r system brisio sy'n seiliedig ar alw ar draws y rhwydwaith i sbarduno cyfran sylweddol o'r twf cryf mewn refeniw o flwyddyn i flwyddyn.

**Edrych Ymlaen**

Yn 2025/26, bydd ehangu parhaus y system brisio sy'n seiliedig ar alw a thocynnau Talu Wrth Fynd digyswllt ar draws y rhwydwaith yn allweddol er mwyn cynyddu refeniw. Bydd cwsmeriaid hefyd yn elwa o drawsnewidiad parhaus y rhwydwaith wrth i ni gymryd camau i fanteisio i'r eithaf ar refeniw a galluogi ailfuddsoddi er mwyn gwella'r gwasanaethau a gynigiwn.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cynaladwyedd

## Allyriadau Carbon Deuocsid Fesul Cilomedr Teithiwr

| 2023/24 | 2024/25 | Q4 2024/25 |
|---|---|---|
| 84.1 | 80.5 | 83.0 |

### Disgrifiad DPA

Swm yr allyriadau Carbon Deuocsid Cwmpas 1 mewn gramau a gynhyrchir gan ein gwasanaethau rheilffordd fesul km teithiwr a deithiwyd. Allyriadau Cwmpas 1 yw'r rhai sy'n deillio o'r defnydd o danwydd gan ein trenau. Mae'r fethodoleg hon yn unol â meini prawf adrodd Llywodraeth Cymru ar gyfer allyriadau carbon.

### Trosolwg

Yn 2024/25, gostyngodd Allyriadau Carbon Deuocsid fesul Cilometr a deithiwyd gan Deithwyr o'u cymharu â 2023/24. Roedd hyn oherwydd i ni gyflwyno trenau newydd, mwy effeithlon a wnaeth gymryd lle'r trenau hŷn a llai effeithlon yn ogystal â'r cynnydd mewn cilometrau a deithiwyd gan deithwyr.

### Edrych Ymlaen

Yn 2025/26, ein nod yw cyhoeddi Cynllun Rheoli Carbon a Strategaeth Ynni a fydd yn rheoli ein gweithgareddau allyriadau carbon ac yn cynyddu effeithlonrwydd ynni. Yn 2025, rydym yn disgwyl gweld ein hallyriadau carbon o ddiesel yn lleihau wrth i'n trenau hybrid cyntaf a'n trenau tram trydan gael eu cyflwyno ar Linellau Craidd y Cymoedd. Mae'r trenau newydd hyn yn cynrychioli cam sylweddol wrth ddatgarboneiddio ein fflyd a chefnogi targedau sero net Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050.